



Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 wedi dychwelyd i'r ysgol a braf oedd gweld bron pob un ohonynt nôl ar y safle. Bydd **disgyblion iau yn medru dychwelyd ar ddydd Llun 12fed o Ebrill**, yn syth ar ôl gwyliau'r Pasg, a gobeithiwn weld pob un ohonynt yn ôl gyda ni. Rhoddwyd llawer o wybodaeth i chi yn y bwletinau blaenorol ac mae'r bwletin hon yn adeiladu ar y wybodaeth hon.

Os oes gennych gwestiynau pellach ar ôl darllen y pecyn gallwch gysylltu gyda'ch arweinydd cynnydd a lles (Bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk neu Bl8a9@penweddig.ceredigion.sch.uk) neu gyda swyddfa'r ysgol ([ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)).

Byddaf yn cynnal **sesiwn holi ac ateb ar gyfer rieni blynyddoedd 7, 8 a 9 ar ddydd Gwener am 2.30yp.**

Microsoft Teams meeting

Join on your computer or mobile app

[Click here to join the meeting](#)

Dydd Gwener 26/3/21

2.30yp

Trefniadau dychwelyd

Cyrraedd a gadael yr ysgol

Bydd trafniadaeth ysgol yn rhedeg fel arfer ar gyfer disgyblion sy'n gymwys. Bydd disgwyl i ddisgyblion gwisgo mwgwd ar y bysiau. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi gludo'ch plentyn i'r ysgol er mwyn ceisio cadw'r niferoedd sydd ar y bysiau yn isel. Er mwyn lleihau tagfeydd traffig gyda'r bysiau gofynnwn i chi ollwng eich plant ger maes parcio'r ysgol yn hytrach na syth o flaen yr adeilad.

Mae'r ysgol wedi derbyn cwynion bod rhieni yn parcio eu ceir ym mynediad Cilgant Padarn Crescent ar ddiwedd y dydd ysgol. Gofynnwn yn garedig ar ran y trigolion i rieni osgoi parcio yn y fan yma.

Presenoldeb

Yn ystod y cyfnod clo mae hi wedi bod yn gyffredin i rieni gysylltu ag Arweinwyr Cynnydd a Lles ynghylch 'absenoldebau' ond nawr ein bod yn dechrau dychwelyd byddem yn gofyn ichi anfon e-bost at abs@penweddig.ceredigion.sch.uk os yw disgybl yn mynd i fod yn absennol.

Os mae gennych chi bryderon am eich plant yn dychwelyd, cysylltwch gyda'ch arweinydd cynnydd a lles i drafod.

Gwisg Ysgol

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda gwisg ysgol ac yn dymuno prynu unrhyw eitemau, yna gallwch wneud hynny trwy www.alisonjonesschoolwear.co.uk neu ffonio 01970 625288 ar gyfer 'clic-a-chasglu'. Deallwn fydd siopau dillad ar agor o'r 12fed o Ebrill a bydd cyfle wedyn i ddatrys unrhyw faterion gwisg.

Amserlen

Mae disgyblion CA3 yn dychwelyd ar ddydd Llun 12fed o Ebrill. Bydd hwn yn **wythnos 2** o'r amserlen. Bydd amserlen y dydd yn aros yn gyson, ond yn y dyddiau cyntaf byddwn yn ymestyn cofrestru ychydig i gefnogi disgyblion wrth iddynt ddychwelyd – bydd yr amser yn dod o wers 1 a bydd gweddill yr amserlen yn aros yn gyson.

Ffreutur

Bydd hwn ar agor pan mae disgyblion yn dychwelyd ar ôl Pasg. Ar hyn o bryd mae'r ffreutur yn parhau i dderbyn arian, ond mae gwaith wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo i baratoi'r system i symud tuag at un di-arian.

Trefniadau iechyd a diogelwch

Bydd y trefniadau iechyd a diogelwch blaenorol yn parhau - mae hwn yn cynnwys diheintio dwylo yn rheolaidd, gwirio tymheredd ar ddechrau'r dydd a chadw at barthau penodol o'r ysgol. Mae disgwyl fod disgyblion yn gwisgo mygydau yn yr adeilad **gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth**. Cofiwch fod egwyl fore a phrynhawn ac amser cinio yn gyfle i fynd allan. Nid oes angen iddynt wisgo mwgwd tu allan i'r adeilad.

Mae'r camau iechyd a diogelwch hyn yn dilyn o'r canllawiau cenedlaethol. Maent yn rhan o asesiad risg sy'n ein galluogi ni fel ysgol gweithredu gyda grwpiau llawn. Heb y disgwyliadau hyn byddai'r ysgol yn gorfod rhedeg gyda grwpiau llai a byddent nhw yn lleihau'r niferoedd byddai'n bosib cynnal yn yr ysgol.

Deallaf fod rhai disgyblion yn poeni am ddychwelyd ac eraill yn edrych ymlaen. Gall disgyblion sy'n pryderu cysylltu gyda'i arweinydd cynnydd a lles a cheisiwn sicrhau bod cefnogaeth mewn lle ar eu cyfer. Gallwn eu cyfeirio at gwnselydd yr ysgol a fydd yn dychwelyd i gwnsela wyneb yn wyneb ar ôl y Pasg, neu gefnogaeth arall trwy'r Hafan.

Diwrnodau HMS

Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dydd Gwener 28ain o Fai yn parhau. Bydd y diwrnod HMS clustnodwyd ar gyfer dechrau Gorffennaf yn symud i ddydd Mercher 9fed o Fehefin. Mae hwn yn ddyddiad sirol a bydd y diwrnod yn caniatáu ysgolion uwchradd i gymedrolï'r graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn fewnol a gydag ysgolion eraill.

Blwyddyn 7: Noson Rieni

Bydd noson rieni blwyddyn 7 ar nos Fawrth 4ydd o Fai (ar ôl gŵyl y banc). Bydd manylion o'r system ar-lein yn dilyn.

Blwyddyn 9: Dewisiadau

Bydd y broses dewisiadau yn parhau ar ôl i ddisgyblion ymgartrefu nôl yn yr ysgol. Rydyn ni wedi oedi ar nifer o faterion yn y broses i sicrhau ein bod yn medru rhoi sylw a chefnogaeth briodol i ddisgyblion yn y broses.

Dymunaf wyliau Pasg hapus i bawb ac edrychaf ymlaen at weld eich plentyn nol yn yr ysgol ar y 12fed o Ebrill.



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)